

Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

20 Mawrth 2018, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Llandrindod, LD1 5HA

Cofnodion

Aelodau

Michael Prior (MP) Cadeirydd Annibynnol
Y Cynghorydd Sue Pickering (SP) Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Y Cynghorydd Claire Mills (CM) Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin
Cymru

Swyddogion yn bresennol

Julie Brown (JB) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Kevin Jones (KJ) Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Mark Malson (MMA) Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Eraill yn Bresennol

Glyn Morgan (GM) Cymdeithas y Swyddogion Tân

Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ysgrifenyddiaeth)

Kerry Citric (KC) Y Gangen Gwasanaethau Tân
Cerys Myers (CLM) Y Gangen Gwasanaethau Tân
Natalie Spiller (NS) Y Gangen Gwasanaethau Tân

Drwy Gyswllt Ffôn

Sean Starbuck (SS) Undeb y Brigadau Tân

Arsylwyr

Chris Barton (CB) Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Mark Miles (MM) Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin
Cymru

Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Bryan Apsley Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Richard Fairhead Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân
Grant Mayos Undeb y Brigadau Tân, Aelod Gweithredol Cyngor Cymru
Paul Scott Cymdeithas y Swyddogion Tân
Adrian Hughes Undeb y Diffoddwyr Tân wrth Gefn
Clair Alcock Cymdeithas Llywodraeth Leol

1. EITEM 1 YR AGENDA– CROESO A CHYFLWYNIADAU

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan MP. Mynegodd MP ei ddiolchgarwch i'r gwasanaethau brys am eu hymateb i amodau tywydd garw a brofwyd yng Nghymru.

- 1.2 Darparodd CLM ymddiheuriadau ar gyfer y Cynghorydd Bryan Apsley, Richard Fairhead, Grant Mayos, Adrian Hughes, Clair Alcock a Paul Scott a nododd fod Glyn Morgan yn bresennol i gynrychioli Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân.
- 1.3 Dywedodd MP wrth y Bwrdd bod Richie Fairhead wedi ei benodi gan Ysgrifennydd y Cabinet i gynrychioli Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân.
- 1.4 Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau i'w ddatgan.

2. EITEM 2 YR AGENDA – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

- 2.1 Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd a gwahoddodd yr aelodau i gytuno ar gywirdeb y cofnodion hynny. Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

MATERION YN CODI

- 2.2 Cydnabu MP bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf yn ymwneud â rhagdybiaethau prisio a oedd wedi eu cwblhau. Byddai diweddariad pellach ar y Prisiad yn ogystal â diweddariadau ar Gyflog Pensiynadwy a Byrddau Pensiwn Lleol yn cael eu cynnwys yn yr agenda.

- 2.3 Cyfeiriodd MP at y camau a oedd angen sylw a ddeilliodd o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Ebrill a 3 Hydref 2016 a gwahoddodd SS i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

- *Darparu gwybodaeth ar nifer y diffoddwyr tân o dan gynllun 2007 sydd â diddordeb mewn trosglwyddo i gynllun 2015.* Esboniodd SS bod yr wybodaeth yn ddibynnol ar ganlyniad y triwlynys cyflogaeth.
- *Ystyried cynnig i ganiatáu i aelodau ar y cynllun 2007 i drosglwyddo eu pensiwn i gynllun 2015.* Cydnabu MP bod y cam gweithredu hwn yn ddibynnol ar y cam uchod. Dywedodd MP bod y ddau bwynt gweithredu wedi bod ar yr agenda ers peth amser a gofynnodd i SS a fyddai'n fodlon i'r Ysgrifenyddiaeth eu dileu nhw gyda'r dewis o godi'r mater eto mewn cyfarfod yn y dyfodol pe byddai hi'n berthnasol i wneud hynny. Cytunodd SS â'r ymagwedd hon.
- *Oedran Pensiwn Gwarchodedig* - eglurodd SS bod y mater yn ymwneud ag aelodau Cynllun 1992 a chanddynt oedran pensiwn gwarchodedig o 50, a'r posibilrwydd o oblygiadau treth sylweddol i'r rhai hynny sy'n ymddeol ac yn ailddechrau yn y Gwasanaeth ar sail rhan-amser. Roedd tri achos yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi eu hatgyfeirio at yr Ombwdsmon Pensiynau gan fod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi methu â rhoi cyngor i'w diffoddwyr tân ar y mater hwn. Roedd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn disgwyl am benderfyniad gan yr Ombwdsmon Pensiynau. Roedd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi rhoi sicrhad, ers hynny, fod pob aelod o'r staff wedi eu briffio'n llawn ynghylch y goblygiadau i atal hyn rhag digwydd eto. Cadarnhaodd KJ a JB na fu unrhyw achosion yn Awdurdod Tân ac Achub

Canolbarth a Gorllewin Cymru nac yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Ychwanegodd SS er bod y mater wedi effeithio yn uniongyrchol ar Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, ei fod yn berthnasol i'r Bwrdd Cynghori ehangach o ran effaith ddiffyg cyfathrebu ynghylch newidiadau i'r ddeddfwriaeth dreth. Gofynnodd SS am i'r eitemau aros ar yr agenda a chytunodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y cyfarfod nesaf.

2.4 Gofynnodd SS a ellid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch costau gwasanaeth blaenorol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Drysorlys ei Mawrhydi ym mis Hydref gan amlinellu cefnogaeth Bwrdd Cynghori Cymru o'r safbwynt a nodir gan Fwrdd Cynghori Lloegr ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Cadarnhaodd KC bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan Drysorlys ei Mawrhydi ym mis Rhagfyr ac fe'u hysbyswyd nad oedd penderfyniad terfynol wedi ei wneud eto. Anogodd SS Lywodraeth Cymru i bwysu ar Drysorlys ei Mawrhydi am ymateb gan ei bod yn debygol y byddai gan y mater oblygiadau i achos yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i ofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf o ran Costau Gwasanaeth Blaenorol gan Drysorlys ei Mawrhydi.

3. EITEM 3 YR AGENDA– PRISIAD 2016

3.1 Diolchodd MP i'r aelodau am eu cyfraniadau i'r ymateb i'r ymgynghoriad ar yr adroddiad rhagdybiaethau prisiad drafft a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr ar ran Bwrdd Cynghori.

3.2 Eglurodd KC bod Llywodraeth Cymru wedi trafod sylwadau'r Bwrdd Cynghori gydag Adran Actiwariâid y Llywodraeth, wedi rhannu tystiolaeth ynghylch cymudo gyda Thrysorlys ei Mawrhydi, ac yn bwriadu ymateb yn ffurfiol i'r Bwrdd Cynghori maes o law. Roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gohirio'r ymateb hwn nes bod Trysorlys ei Mawrhydi wedi cyhoeddi'n ffurfiol eu rheoliadau prisiad 2016 a fyddai'n cynnwys diweddariadau ar rai o'r rhagdybiaethau yr oedd y Bwrdd Cynghori wedi codi materion yn eu cylch, sef cyfraddau cymudo a defnydd o ddata cyfredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Byddai'r oedi hwn yn darparu sylwadau mwy manwl a llawn gwybodaeth ar gyfer y Bwrdd. Ar wahân i gymudiadau, roedd trafodaethau gydag Adran Actiwariâid y Llywodraeth yn canolbwyntio ar ymddeoliadau sy'n seiliedig ar oedran a chyfraddau marwolaeth.

3.3 Er bod gan Lywodraeth Cymru rywfaint o gydymdeimlad â safbwynt y Bwrdd Cynghori ar ddefnyddio yr un rhagdybiaeth oedran ymddeoliad â Lloegr, nid oedd digon o dystiolaeth i seilio rhagdybiaeth ddiwygiedig arni. Hefyd, roedd y rhagdybiaeth a ddefnyddiwyd yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad 2012 (a oedd wedi ei seilio ar gynllun arfaethedig B –ffactorau ymddeol yn gynnar a chyfraddau cronni gwahanol ar gyfer Cymru). Yn hytrach, cytunodd Llywodraeth Cymru gydag Adran Actiwariâid y Llywodraeth y byddai'r adroddiad rhagdybiaethau yn cynnwys paragraff i ddangos y gallai'r gyfradd ymddeoliad

cynnar fod yn uwch yng Nghymru, ond na fyddai unrhyw wahaniaeth yn berthnasol ar gyfer y prisio.

- 3.4 Roedd y Bwrdd Cynghori wedi cwestiynu'r defnydd o ddata o Loegr ar gyfer rhagdybiaeth cyfradd marwolaethau pensiynwyr. Esboniodd Adran Actiwariad y Llywodraeth bod yr un rhagdybiaeth wedi ei defnyddio ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; yr Alban oedd yr unig gynllun gyda chyfraddau marwolaethau gwahanol gan fod gwahaniaeth sylweddol yn nifer y marwolaethau o'i gymharu â gweddill y DU. O ganlyniad, cytunodd Llywodraeth Cymru y byddai'r rhagdybiaeth a gynigiwyd yn wreiddiol a'r safbwynt hwn yn cael eu hadlewyrchu yn yr ymateb terfynol i'r Bwrdd Cynghori.
- 3.5 Ychwanegodd SS bod ymateb Trysorlys ei Mawrhydi i Fwrdd Cynghori Lloegr wedi nodi y byddent yn defnyddio data Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016 ar gyfer cyfraddau marwolaethau pensiwn.
- 3.6 Cyfeiriodd SS at y rhagdybiaeth ynghylch codiadau cyflog hyrwyddol a gofynnodd a oedd Adran Actiwariad y Llywodraeth wedi ystyried newidiadau i'r rheoliadau a gyflwynwyd yn 2013 gan gyfeirio'n benodol at ddileu dyrchafiadau dros dro o gyflog pensiynadwy. Dywedodd KC y byddai Llywodraeth Cymru yn codi'r mater gydag Adran Actiwariad y Llywodraeth.

Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru i godi'r newid mewn deddfwriaeth ynghylch dyrchafiadau dros dro gydag Adran Actiwariad y Llywodraeth.

- 3.7 Eglurodd KC bod yr oedi yn ymgynghoriad Trysorlys ei Mawrhydi ar ei reoliadau Prisiad a'r Cap Costau diweddar yn gohirio derbyn canlyniadau'r prisio drafft oddi wrth Adran Actiwariad y Llywodraeth. Nid oedd hyn yn unigryw i gynlluniau diffoddwyr tân yng Nghymru, ond roedd yn berthnasol i bob un o'r cynlluniau. Roedd Trysorlys ei Mawrhydi wedi esbonio eu bod yn ymwybodol o effaith yr amserlen a'u bod nhw'n ceisio darparu'r wybodaeth ddiweddaraf cyn gynted â phosibl, ym mis Ebrill mae'n debyg.
- 3.8 Ychwanegodd KC nad oedd Adran Actiwariad y Llywodraeth yn gallu cadarnhau pryd y byddai'r adroddiad prisio terfynol ar gael oherwydd yr oedi. Roedd yn debygol y byddai disgwyl i'r Bwrdd Cynghori gyfarfod rhwng mis Mai a mis Hydref i drafod canlyniadau'r prisiad. Roedd yr amseru am fod yn anodd yn enwedig pe byddai unrhyw achos o dorri'r rheoliadau Cap Costau a fyddai angen trafodaethau manwl â'r Bwrdd Cynghori gyda'r posibilrwydd o ymgynghoriadau mwy ffurfiol ar ddiwygiadau i'r cynllun y byddai angen iddynt ddod i rym erbyn 1 Ebrill 2019. Dywedodd y Bwrdd Cynghori eu bod yn siomedig â'r sefyllfa ond eu bod nhw'n gwerthfawrogi na ellid gwneud llawer tan y byddai Trysorlys ei Mawrhydi wedi gwneud cynnydd.
- 3.9 Cyfeiriodd KC at yr adroddiad drafft ar ddata aelodaeth (Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (18) 01 Atodiad 1) sef dogfen ategol i'r Adroddiad Prisiad ehangach. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data a gasglwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub a fyddai'n cyfrannu at y gwerthusiad cyffredinol. Roedd yr adroddiad wedi ei ddarparu er gwybodaeth, ond gwahoddwyd yr aelodau i godi unrhyw faterion a oedd ganddynt.

- 3.10 Cydnabu MP bod yr adroddiad yn dangos mwy na 6,000 o unigolion ar draws y cynlluniau. Dywedodd SS na ddylid edrych ar yr adroddiad ar wahân, ac y dylid ei gymharu ag adroddiadau cynlluniau ardaloedd eraill yr aelodau. Amlygodd SS y gwahaniaeth rhwng ffigurau'r cynlluniau Cymru a rhai Lloegr; roedd nifer yr aelodau gweithredol yng Nghymru wedi cynyddu er eu bod nhw wedi gostwng yn Lloegr. Eglurodd SS bod unrhyw ostyngiad yn destun pryder gan ei fod, yn ôl pob tebyg, yn dangos bod mwy o aelodau sy'n gadael y cynllun nag sy'n talu i mewn iddo.
- 3.11 Dywedodd KJ a MM bod mwy o ddiffoddwyr tân ar alwad yng Nghymru a allai egluro'r cynnydd mawr yn nifer yr aelodau gohiriedig. Awgrymwyd y byddai gwaith pellach yn ddefnyddiol mewn cysylltiad ag aelodau gohiriedig i esbonio'r cynnydd, gan y byddai'n cael effaith ar gost y cynlluniau, er y byddai hyn yn gosod baich ychwanegol ar weinyddwyr y cynllun. Ychwanegodd SS ei bod yn bwysig monitro incwm a gwariant y cynlluniau gan fod cyfanswm y cyflog pensiynadwy wedi cynyddu gan £5m ers y prisiad diwethaf. Dywedodd MP wrth y Bwrdd Cynghori y byddai papur ar Incwm a Gwariant Cronfa Bensiwn Awdurdodau Tân ac Achub yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyfarfod nesaf. Byddai hwn yn cynnwys ffigurau terfynol ar gyfer 2017-18.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i ddarparu papur ar Incwm a Gwariant Cronfa Bensiwn yr Awdurdodau Tân ac Achub yn y cyfarfod nesaf.

4. EITEM 4 YR AGENDA – CYFLOG PENSIYNADWY

- 4.1 Cyfeiriodd MP at Benderfyniad yr Ombwdsmon ar Gyflog Pensiynadwy [PO-15584](#) a oedd yn ymwneud yn benodol â diffoddwr tân wrth gefn yn Awdurdod Tân ac Achub Swydd Warwick. Roedd y Penderfyniad wedi penderfynu y dylai ffioedd galwadau, cyfraddau yn ôl yr awr wrth fynd i ddigwyddiadau a thaliadau hyfforddiant, yn ogystal â'r ffi ar ddyletswydd yn ôl galw, i gyd gyfrif fel cyflog pensiynadwy. Cadarnhaodd yr Awdurdodau Tân ac Achub nad oedd achos Swydd Warwick yn effeithio arnynt.
- 4.2 Gofynnodd MP a oedd ôl-weithredu wedi ei ystyried yn rhan o'r Penderfyniad. Cadarnhaodd KC bod hyn wedi ei ystyried, a'i bod yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Swydd Warwick gyfateb i'r dull a ddefnyddiwyd gan yr achwynydd (talw cyfraniadau'r cyflogwr naill ai fel cyfandaliad neu mewn rhandaliadau).
- 4.3 Gwahoddwyd SS a KJ gan MP i roi diweddariad ar y cynnydd gyda'r achos ombwdsmon pellach yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dywedodd SS bod yr achos hwn yn ymwneud â diffoddwyr tân llawn amser gyda chontractau ychwanegol a lwfansau. Byddai'r penderfyniad hwnnw yn cael mwy o effaith nag achos Swydd Warwick. Ychwanegodd KJ bod yr Ombwdsmon Pensiynau wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; roedd yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub ymateb erbyn 30 Mawrth 2018.

- 4.4 Dywedodd GM fod penderfyniad achos Awdurdod Tân ac Achub Swydd Warwick wedi ei drafod yn y Bwrdd Cynghori Lloegr. Rhoddwyd ystyriaeth i ddatblygu canllawiau ar gyflog pensiynadwy a byddai cynigion gan ymgynghorwyr cyfreithiol i fwrw ymlaen â'r gwaith yn cael eu gwahodd. Rhagwelwyd y byddai diweddariad pellach gan Fwrdd Cynghori Lloegr yn cael ei ddarparu ym mis Ebrill.
- 4.5 Awgrymodd MP bod diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i osod Cyflog Pensiynadwy ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

5. EITEM 5 YR AGENDA – DATA'R CYNLLUN

- 5.1 Cyfeiriodd CLM at Atodiad 1 a oedd yn cynnwys data optio allan ar gyfer cyfnod Ebrill 2017 – Ionawr 2018 (Chwarter 1-3). Dangosodd y data bod cynnydd o 47 mewn achosion o optio allan (10 aelod llawn amser a 37 o aelodau wrth gefn). Nodwyd bod y rhan fwyaf yn ymwneud â thynnu'n ôl yn dilyn cofrestru awtomatig yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- 5.2 Gofynnodd SS a oedd y data optio allan yn cynnwys gwybodaeth am aelodau nad oeddent wedi ymuno â'r Cynllun. Cadarnhawyd bod aelodau yn cael eu cynnwys yn y cynllun yn awtomatig wrth ymuno â'r Gwasanaeth. Dywedodd KC bod y data yn adlewyrchu unigolion a oedd wedi dewis gadael y Cynllun o fewn tri mis i ymuno.
- 5.3 Esboniodd CLM bod Atodiad 2 yn darparu syniad i'r aelodau o faint o wybodaeth a gesglir gan yr Awdurdodau Tân ac Achub. Roedd yn cadw gwybodaeth ynghylch hyd gwasanaeth pensiynadwy, oedran ar adeg optio allan a'r rheswm dros wneud hynny. Darparwyd yr wybodaeth hon i Adran Actiwaiaid y Llywodraeth er mwyn ei chyfrannu at y Prisiad.
- 5.4 Esboniodd CLM bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r ffurflen yn flaenorol i ymgorffori cynllun 2015, ond gan wahodd barn aelodau ynghylch pa un a oes angen adolygu'r ffurflen ymhellach, yn arbennig o ran y rheswm dros optio allan. Y rheswm dros y rhan fwyaf o'r achosion o optio allan yn ôl yr wybodaeth a gafwyd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub oedd 'anhysbys / ni roddwyd rheswm'. Esboniodd CLM fod y ffurflen yn cynnig nifer o ddewisiadau fel rheswm dros optio allan, ond roedd yn amau a oeddent yn adlewyrchu realiti; efallai fod yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi dewis 'anhysbys' yn ddiodyn.
- 5.5 Dywedodd JB y gallai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gwestiynu'r rheswm dros optio allan gydag aelodau unigol; yn enwedig gydag aelodau hŷn. Dywedodd MM bod y mwyafrif o'r achosion o optio allan yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ymwneud â chofrestru awtomatig neu eu bod yn ganlyniad i contractau dros dro llawn amser, sydd fel arfer yn rhai tymor byr.

Nodwyd bod llawer o aelodau wrth gefn wedi optio allan oherwydd bod ganddynt gynlluniau pensiwn eisoes yn rhan o'u cyflogaeth sylfaenol. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol deall y rheswm pam mae aelodau wedi dewis gadael y cynllun gan y gallai hyn helpu Awdurdodau Tân ac Achub i'w hannog nhw i aros. Cytunodd Awdurdodau Tân ac Achub bod ganddynt gyfraniad i'w wneud os oedd aelodau wedi dewis gadael y cynllun oherwydd nad oeddent yn deall y manteision o fod yn y cynllun, ond ei bod yn anodd holi unigolion gan mai eu dewis nhw oedd gadael y cynllun. Nid oedd yr aelodau o dan unrhyw rwymedigaeth i ddatgelu'r rheswm dros optio allan.

- 5.6 Nododd KC nad oedd cynllun addasedig 2014 wedi ei gynnwys yng nghwymplen y cynllun ac y byddai hyn yn cael ei newid. Gwahoddwyd yr aelodau i roi unrhyw sylwadau pellach, ynghylch y rheswm dros optio allan yn enwedig, yn dilyn y cyfarfod.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i wella'r templed casglu data optio allan fel ei fod yn cyfeirio at gynllun addasedig 2014. Yr aelodau i roi unrhyw sylwadau pellach ynglŷn â'r templed i Lywodraeth Cymru.

- 5.7 Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o fanylion ar ddata optio allan yn y cyfarfod nesaf.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar Ddata Optio Allan gan gynnwys dadansoddiad o'r wybodaeth fanwl a gasglwyd.

6. EITEM 6 YR AGENDA – DIWEDDARIADAU GAN Y BYRDDAU PENSIYNAU LLEOL

Bwrdd Cynghori'r Cynllun, Lloegr

- 6.1 Yn absenoldeb Clair Alcock, gofynnodd MP i GM a allai roi'r wybodaeth ddiweddaraf gan Fwrdd Cynghori Lloegr. Dywedodd GM bod Bwrdd Cynghori Lloegr wedi cael cyfarfod ar 9 Mawrth. Roedd Bwrdd Cynghori Lloegr wedi cael canlyniadau Arolwg Bwrdd Cynghori'r Cynllun o Fyrddau Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. O ganlyniad i'r arolwg, roedd Bwrdd Cynghori Lloegr wedi cytuno y byddai gwaith pellach yn cael ei gynnal gan is-bwyllgorau'r Bwrdd gyda'r nod o ddatblygu canllawiau a chymorth. Eglurodd MP bod arolwg Bwrdd Cynghori Lloegr yn wahanol i arolwg y Rheoleiddiwr Pensiwn; roedd y cyntaf wedi canolbwyntio ar weithrediad y Byrddau Pensiwn Lleol. Gofynnodd MP a oedd yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi ymateb i'r arolwg. Cadarnhaodd MM bod Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymateb. Nid oedd Awdurdodau Tân ac Achub y Gogledd na'r De wedi darparu ymateb.

- 6.2 Diolchodd MP i'r Awdurdodau Tân ac Achub am gytuno ar ddull ar y cyd i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Cynghori.

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

- 6.3 Esboniodd JB, yn dilyn newid yng nghynrychiolaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol, fod cyfarfod cyntaf y bwrdd newydd wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd cyfathrebu. Trafododd y Bwrdd Pensiwn Lleol y gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gyfathrebu gydag aelodau a rheoleidd-dra gwneud hynny i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r bobl iawn mewn modd prydlon. Roedd y cyfarfod nesaf i'w gynnal ym mis Ebrill.
- 6.4 Dywedodd GM bod Bwrdd Cynghori Lloegr wedi sefydlu is-bwyllgor ac awgrymodd efallai y byddent yn gallu darparu rhywfaint o wybodaeth i gyfrannu at waith Gogledd Cymru. Dywedodd JB ei bod hi wedi derbyn gwybodaeth gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn ymwneud â thempledi a chanllawiau, a bod y rhain wedi eu darparu i weinyddwyr y cynllun.

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

- 6.5 Diolchodd MMA i MP am ddod i gyfarfod mis Chwefror i roi trosolwg o waith y Bwrdd Cynghori. Roedd y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi cael nifer o adroddiadau i'w gwneud nhw'n ymwybodol o'r materion mewn cysylltiad â'r rhagdybiaethau prisiad. Roedd y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi cael diweddariad ar Seminar Dreth Pensiwn y CLIL a oedd wedi canolbwyntio ar Lwfansau Blynyddol a Lwfansau Hyd Einioes. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd hyfforddiant yn enwedig mewn cysylltiad â chydymffurfio â'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Ychwanegodd MMA bod yr Awdurdod Tân ac Achub, fodd bynnag, wedi derbyn nifer o ymddiswyddiadau ac felly byddai angen hyfforddiant pellach wrth benodi aelodau newydd yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf. Rhagwelwyd y byddai cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael eu cynnal ym mis Gorffennaf, mis Hydref a mis Chwefror yn y dyfodol.

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

- 6.6 Dywedodd MM bod y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi cwrdd ar 12 Mawrth. Roedd y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi ystyried Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Gweinyddwyr Cynllun Pensiwn trydydd parti yr Awdurdod. Roedd sampl o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i gytuno arnynt i fonitro'r perfformiad o'i gymharu â'r CLG. Gwnaethpwyd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn ymwybodol o ofynion Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r effaith y byddant yn eu cael mewn cysylltiad â'r cynlluniau pensiwn. Roedd y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi ystyried a chytuno i'r Awdurdod Tân ac Achub fabwysiadu Polisi Cynllun Gwirfoddol yn talu. Darparodd Gweinyddwyr y Cynllun Pensiwn, Cyngor Sir Caerfyrddin, yr wybodaeth ddiweddaraf ar broses gymodi yr Isafswm Pensiwn Gwarantedig a rhoddwyd gwybodaeth bellach ar 'My Pension online' a Chodiadau Pensiynau. Derbyniodd y Bwrdd Pensiwn Lleol ddiweddariad llafar ar y Bwrdd Cynghori hefyd.
- 6.7 Diolchodd MP i'r Awdurdodau Tân ac Achub am eu diweddariadau a dywedodd fod y templed cydweithredu wedi caniatáu i'r Bwrdd Cynghori weld datblygiadau yn hawdd gan alluogi pob un o'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddilyn datblygiadau sy'n ymwneud â materion pensiwn ledled Cymru.

6.8 Cydnabu MP y bydd GDPR yn dod i rym ym mis Mai 2018 a chyfeiriodd at ddiwyddiad data CLIL a drefnwyd ar gyfer 29 Mai. Nodwyd bod:-

- y mater wedi ei roi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Bwrdd Pensiwn Lleol Gogledd Cymru.
- Cadarnhaodd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru bod eu Swyddog Diogelu Data a rennir am fynd i'r digwyddiad data.

7. EITEM 7 YR AGENDA – DIWYGIADAU I GYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

7.1 Dywedodd KC bod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y 2 orchymyn sy'n ymwneud â budd-daliadau goroeswr sy'n ailbriodi a'r gwelliannau i gynllun 2015 wedi cau ym mis Rhagfyr. Roedd ymateb wedi ei gael gan bob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub. Nid oedd unrhyw faterion yn ymwneud â mân ddiwygiadau i gynllun 2015, ond nododd yr aelodau y canlynol mewn cysylltiad â budd-daliadau goroeswyr:-

- ***Hawl partneriaid sy'n goroesi (partneriaid diffoddwyr tân a fu farw o ganlyniad i anaf tra ar ddyletswydd) i gael budd-dal marwolaeth pan eu bod yn ailbriodi – Diwygiadau cynllun pensiwn 1992 a chynllun iawndal 2007***

7.2 Eglurodd KC bod yr ymgynghoriad wedi cynnig pedwar dewis o ran cadw budd-daliadau goroeswyr pan eu bod yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd, gan gynnwys lefelau amrywiol o ôl-weithredu. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r dewis a ffefrir ganddynt, sef cael gwared â'r rheol sy'n dileu budd-daliadau wrth ailbriodi o 1 Ebrill 2015 ac adfer budd-daliadau ar gyfer y rhai sydd eisoes wedi eu colli nhw ers y dyddiad hwnnw. Awgrymodd un Awdurdod Tân ac Achub, fodd bynnag, na fyddai'r dull hwn yn darparu cysondeb â dyfarniadau'r Goruchaf Lys yn achosion [Walker](#) a [Brewster](#). Yn rhan o'r broses ôl-ymgynghori, roedd Llywodraeth Cymru, felly, wedi adolygu costau posibl ôl-weithredu yn llawn hyd at y pwynt pan ddilëwyd yr hawl. Er bod y niferoedd yr effeithiwyd arnynt gan y gwelliant arfaethedig yn isel iawn, byddai costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â phenderfyniad o'r fath wedi gosod cryn faich ar yr Awdurdodau Tân ac Achub. O ganlyniad, roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu parhau â'u dewis a ffefrir gwreiddiol.

- ***Brewster (cael gwared â'r gofyniad i aelodau'r cynllun enwebu partner sy'n cyd-fyw â nhw er mwyn cael budd-dal goroeswr) – Diwygiad i gynllun pensiwn 2007***

7.3 Eglurodd KC nad oedd yr ymgynghoriad wedi cynnwys manylion diwygiadau i gynllun 2007 o ran dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Brewster - yn hytrach roedd yr ymgynghoriad wedi nodi y byddai'r diwygiadau hyn yn cael eu

hychwanegu at y gorchymyn, ar ôl yr ymgynghoriad. Roedd y diwygiadau hyn bellach wedi eu hychwanegu.

7.4 Roedd Llywodraeth Cymru wedi drafftio ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad gan obeithio gwneud y Gorchymynion a'u cyflwyno, a chyhoeddi'r ymateb maes o law. Gan fod y Gorchymyn yn ymwneud ag ôl-weithredu, nid oedd gofyniad i gyflwyno erbyn dyddiad penodol, ond nododd KC ei fod yn debygol o ddod i rym ym mis Mai neu fis Mehefin.

7.5 O ran materion budd-daliadau goroeswyr ehangach, roedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch goblygiadau dyfarniad Innospec v Walker, roedd Llywodraeth Cymru yn aros am gyngor cyfreithiol pellach gan Drysorlys ei Mawrhydi. Efallai y bydd ymgynghoriad yn ofynnol o ran diwygiadau i Gynllun 1992.

7.6 Yn rhan o'r ymgynghoriad presennol, eglurodd KC bod un Awdurdod Tân ac Achub wedi codi pryderon ehangach ynghylch goroeswyr diffoddwyr tân (heblaw'r rhai a laddwyd ar ddyletswydd) a oedd wedi colli eu pensiwn goroeswyr wrth ailbriodi o dan gynllun 1992. Roedd hyn y tu allan i derfynau'r ymgynghoriad, ond roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod anghydraddoldebau o hyd gyda budd-daliadau goroeswyr. Gofynnodd KC a oedd gan y Bwrdd Cynghori unrhyw safbwyntiau. Cytunodd y Bwrdd y dylid rhoi pob ystyriaeth i gydraddoli budd-daliadau goroeswyr, ond nodasant nad oedd hwn yn fater y gellid ei ystyried ar ei ben ei hun ar gyfer Cynlluniau Diffoddwyr Tân yng Nghymru. Byddai'n cynnwys pob cynllun sector cyhoeddus, a gallai'r goblygiadau ariannol fod yn sylweddol.

7.7 Cytunwyd y dylai'r ysgrifenyddiaeth hysbysu Trysorlys ei Mawrhydi o safbwyntiau cyffredinol y Bwrdd Cynghori ar y mater hwn, a sefydlu pa un a oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i adolygu budd-daliadau goroeswyr ar draws cynlluniau'r sector cyhoeddus.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i hysbysu Trysorlys ei Mawrhydi o safbwyntiau cyffredinol y Bwrdd Cynghori ar fudd-daliadau goroeswyr a chadarnhau pa un a oes gan Drysorlys ei Mawrhydi unrhyw gynlluniau i adolygu budd-dal goroeswyr ar draws cynlluniau'r sector cyhoeddus.

7.8 Dywedodd GM bod y mater sy'n ymwneud â fforffedu wedi ei godi gyda'r Swyddfa Gartref nifer o weithiau a bod Trysorlys ei Mawrhydi wedi croesawu'r ffaith y byddai'r Bwrdd Cynghori yn edrych i mewn iddo. Cytunodd GM i godi'r mater gyda Clair Alcock a Malcolm Eastwood (Cadeirydd Bwrdd Cynghori Lloegr) yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Cynghori Lloegr.

8. EITEM 8 YR AGENDA – ISAFSWM TÂL GWARANTEDIG – YMARFER CYSONI YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

8.1 Eglurodd KC bod Trysorlys ei Mawrhydi wedi trefnu i gynnal gweithgor i ganolbwyntio ar gysoni'r isafswm tâl gwarantedig, gordaliadau a nifer o faterion

technegol eraill a oedd wedi codi. Gofynnodd KC a allai Awdurdod Tân ac Achub (sef rheolwyr y cynllun) gynrychioli Cynllun Cymru, ond ni chaf 8.2 wŷd ymateb.

8.3 Gwahoddodd MP yr Awdurdodau Tân ac Achub i roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Cadarnhaodd y tri Awdurdod Tân ac Achub bod gweinyddwyr y cynllun wedi gwneud cynnydd da gyda'r ymarfer cysoni data a'i bod yn ymddangos eu bod nhw ar y trywydd iawn i fodloni'r terfyn amser, sef Rhagfyr 2018.

9. EITEM 9 YR AGENDA– UNRHYW FATERION ERAILL

9.1 Gofynnodd MP a oedd gan yr aelodau unrhyw fusnes arall i'w adrodd. Hysbysodd JB y Bwrdd Cynghori bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi derbyn cwyn mewn cysylltiad â'r Cynllun wedi'i Addasu ar gyfer Diffoddwyr Tân Wrth Gefn . Roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cwblhau camau 1 a 2 y Broses Datrys Anghydfod Mewnol. Mae'r achos wedi ei atgyfeirio i'r Ombwdsmon Pensiynau. Cadarnhaodd MMA bod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi cael cwyn debyg ond nid oedd yr achos yng nghyfnod yr y cam Proses Datrys Anghydfod Mewnol.

9.2 Cyfeiriodd KC at ddyddiad y cyfarfod nesaf a oedd i'w gynnal ym mis Gorffennaf 2018. Dywedodd KC efallai y bydd angen trefnu cyfarfod ychwanegol i drafod y Prisiad os na fyddai amseriad yr adroddiad yn cyd-daro â'r cyfarfodydd a drefnwyd eisoes.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i gadarnhau manylion y cyfarfod nesaf ar ôl cael eglurdeb ynglŷn ag amseriad yr adroddiad Prisiad.